



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif 2783 (Cy.236) (C.93)

2001 No. 2783 (W.236)(C.93)

**COMISIYNYDD PLANT,
CYMRU**

**CHILDREN'S
COMMISSIONER, WALES**

**Gorchymyn Deddf Comisiynydd
Plant Cymru 2001 (Cychwyn)
2001**

**The Children's Commissioner for
Wales Act 2001 (Commencement)
Order 2001**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi 26 Awst 2001 i'r darpariaethau canlynol yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 ("Deddf 2001") ddod i rym:-

This Order appoints 26th August 2001 for the following provisions of the Children's Commissioner for Wales Act 2001 ("the 2001 Act") to come into force:-

- (a) Adran 1, sy'n diwygio adran 78 (dehongli) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ("Ddeddf 2000");
- (b) Adran 2, sy'n mewnosod adran 72A yn Neddf 2000 sy'n darparu mai diogelu a hybu hawliau a lles plant y mae Rhan V o Ddeddf 2000 yn gymwys iddynt yw prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau;
- (c) Adran 3, sy'n mewnosod adran 72B yn Neddf 2000 sy'n galluogi'r Comisiynydd i adolygu effaith arfer swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") a swyddogaethau personau eraill a bennir yn Atodlen 2A i Ddeddf 2000, sydd hefyd yn cael ei mewnosod gan adran 3. Mae adran 72B yn darparu y gall y Cynulliad ddiwygio Atodlen 2A drwy orchymyn o dan amgylchiadau penodol;
- (ch) Adran 4, sy'n diwygio adran 73 o Ddeddf 2000 sy'n ymdrin ag adolygu a monitro trefniadau penodol ar gyfer cŵynion, eiriolaeth a chwythu'r chwiban ac sy'n mewnosod Atodlen 2B yn Neddf 2000. Yn benodol mae'r diwygiadau yn darparu y gall y Cynulliad ddiwygio Atodlen 2B drwy orchymyn o dan amgylchiadau penodol;

- (a) Section 1, which amends section 78 (interpretation) of the Care Standards Act 2000 ("the 2000 Act");
- (b) Section 2, which inserts section 72A into the 2000 Act which provides that the principal aim of the Commissioner in exercising his or her functions is to safeguard and promote the rights and welfare of children to whom Part V of the 2000 Act applies;
- (c) Section 3, which inserts section 72B into the 2000 Act which enables the Commissioner to review the effect of the exercise of functions of the National Assembly for Wales ("the Assembly") and of other persons specified in Schedule 2A to the 2000 Act, which is also inserted by section 3. Section 72B provides for the Assembly to be able to amend Schedule 2A by order in certain circumstances;
- (d) Section 4, which amends section 73 of the 2000 Act which deals with review and monitoring of certain complaints, advocacy and whistle-blowing arrangements and inserts Schedule 2B to the 2000 Act. In particular the amendments provide for the Assembly to be able to amend Schedule 2B by order in certain circumstances.

- (d) Adran 5, sy'n mewnosod adran 75A yn Neddf 2000 ynghyd a diwygiadau canlyniadol i adran 74. Mae adran 75A yn galluogi'r Comisiynydd i ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau neu les plant yng Nghymru ac i wneud sylwadau i'r cynulliad yng Nghylch hynny;
 - (dd) Adran 6, sy'n gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol i adran 76 o Ddeddf 2000;
 - (e) Adran 7, sy'n gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol i adran 118(8) o Ddeddf 2000;
 - (f) Adran 8, sy'n cynnwys darpariaethau ariannol canlyniadol; ac
 - (g) yr Atodlen, sy'n mewnosod Atodlen 2A a 2B yn Neddf 2000.
- (e) Section 5, which inserts section 75A into the 2000 Act together with consequential amendments to section 74. Section 75A enables the Commissioner to consider, and make representations to the Assembly about, any matter affecting the rights or welfare of children in Wales;
 - (f) Section 6, which makes minor consequential amendments to section 76 of the 2000 Act;
 - (g) Section 7, which makes minor consequential amendments to section 118(8) of the 2000 Act;
 - (h) Section 8, which contains consequential financial provisions; and
 - (i) The Schedule, which inserts Schedules 2A and 2B into the 2000 Act.

2001 Rhif 2783 (Cy.236) (C.93)

**COMISIYNYDD PLANT,
CYMRU**

**Gorchymyn Deddf Comisiynydd
Plant Cymru 2001(Cychwyn)
2001**

Wedi'i wneud

25 Gorffennaf 2001

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 9(1) o Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (a):

Enwi a dehongli

1. -(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (Cychwyn) 2001.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.

Y Diwrnod Penodedig

2. -(1) Y diwrnod penodedig ar gyfer dod â darpariaethau'r Ddeddf a bennir ym mharagraff (2) i rym yw 26 Awst 2001.

(2) Dyma'r darpariaethau -

- (a) Adran 1 (cymhwyso Rhan 5 o Ddeddf Safonau Gofal 2000);
- (b) Adran 2 (prif nod y Comisiynydd);
- (c) Adran 3 (adolygu arfer swyddogaethau'r Cynulliad a swyddogaethau personau eraill);
- (ch) Adran 4 (adolygu a monitro trefniadau);
- (d) Adran 5 (pŵer ychwanegol i ystyried a gwneud sylwadau);
- (dd) Adran 5 (swyddogaethau pellach y Comisiynydd);
- (e) Adran 6 (darpariaethau canlyniadol etc.);
- (f) Adran 7 (darpariaethau ariannol); ac
- (ff) Yr Atodlen (personau a threfniadau sy'n destun adolygiad).

2001 No. 2783 (W.236)(C.93)

**CHILDREN'S
COMMISSIONER, WALES**

**The Children's Commissioner for
Wales Act 2001 (Commencement)
Order 2001**

Made

25th July 2001

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred by section 9(1) of the Children's Commissioner for Wales Act 2001(a):

Citation and interpretation

1. -(1) This Order may be cited as the Children's Commissioner for Wales Act 2001 (Commencement) Order 2001.

(2) In this Order "the Act" ("*y Ddeddf*") means the Children's Commissioner for Wales Act 2001.

Appointed day

2. -(1) The provisions of the Act specified in paragraph (2) shall come into force in relation to Wales on 26th August 2001.

(2) The provisions are -

- (a) Section 1 (application of Part 5 of the Care Standards Act 2000);
- (b) Section 2 (principal aim of the Commissioner);
- (c) Section 3 (review of exercise of functions of Assembly and other persons);
- (d) Section 4 (review and monitoring of arrangements);
- (e) Section 5, (additional power of consideration and representation);
- (f) Section 5 (further functions of the Commissioner);
- (g) Section 6 (consequential, etc. provision);
- (h) Section 7 (financial provisions); and
- (i) The Schedule (persons and arrangements subject to review).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

25 Gorffennaf 2001

25th July 2001

Rhodri Morgan

Prif weinidog y Cynulliad Cenedlaethol Cymru

The first minister of the National Assembly for Wales

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

© Hwlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.


© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£1.75

W356 8/01

ISBN 0-11-090327-7



9 780110 903279